



Cynhadledd Cyllid 7/8 Hydref 2021

Dysgu. Cysylltu. Tyfu.

Cynhadledd Cyllid 2021 CHC

Mae hynodrwydd trefnu digwyddiadau yn ystod COVID-19 yn golygu mai hwn fydd yr ail gyfle i weithwyr proffesiynol cyllid ddod ynghyd mewn Cynhadledd Cyllid CHC yn 2021, ond y tro cyntaf y flwyddyn ariannol hon, ac mae'r pandemig yn parhau i fod yn ystyriaeth fyw i'n holl sefydliadau.

Gyda llwyddiant y rhaglen frechu yng Nghymru yn golygu y gallwn gwrdd wyneb yn wyneb â pherthnasau a ffrindiau unwaith eto, mae effaith economaidd dydd-i-ddydd y pandemig yn dechrau dangos. Mae pwysau ar gadwyni cyflenwi, anesmwythyd am chwyddiant a phryderon go iawn am dlodi yn golygu fod cymdeithasau tai yn wynebu straen ar eu cyllid mewn nifer cynyddol o feysydd.

Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad wedi rhoi newid hinsawdd wrth galon ei Rhaglen Lywodraethu newydd, gyda thai yn canolog i Weinyddiaeth Newid Hinsawdd newydd. Mae cymdeithasau tai yn paratoi ar gyfer ymestyn system newydd ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a'r targed o 20,000 o gartrefi newydd, ond mae cwestiynau yn parhau am sut y byddwn yn cyllido datgarboneiddio ein cartrefi presennol a sut y byddwn yn ymateb i'r gwaith parhaus sydd ei angen i sicrhau fod adeiladau yn ddiogel.

Bydd yn anodd cydbwysu'r heriau hyn mewn byd sy'n dal i addasu i "normal newydd", ond bydd y gynhadledd hon yn gyfle i chi ymchwilio'r themâu hyn, a llawer mwy, yn cynnwys sut y gallwch chi a'ch busnes adeiladu cydnerthedd. Bydd cydweithwyr o bob rhan o'r sector, y llywodraeth a'r diwydiant cyllid yn canfod digon o gyfleoedd i ddysgu, rhannu eu profiadau a chlywed gan ein rhaglen o arbenigwyr proffil uchel ar draws ystod o bynciau.

Steve Evans

Cyfarwyddydd Cynorthwyol, Cyllid

Cipolwg ar y rhaglen

Dydd Iau 7 Hydref

[Setliad Cymdeithasol Newydd: Safbwynt economaidd a gwleidyddol y dyfodol, Greg Thwaites, Cyfarwyddwr Ymchwil, Resolution Foundation](#)

[Setliad cymdeithasol newydd – a allwn ei fforddio? Alan Brunt, Prif Weithredwr, Grŵp Cartrefi Cymunedol Bron Afon](#)

[Affordability - A European Perspective, David Orr, Cyd-Gadeirydd, #Housing2030](#)

[Diweddariad ar y Fframwaith Rheoleiddio, Ian Walters, Pennaeth Strategaeth Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru](#)

Dydd Gwener 8 Hydref

[Elyrch Du Economaidd, Sarah Dickins, Gohebydd Economeg, BBC Cymru](#)

[Elyrch Du Economaidd – Sesiwn Panel, Jai Lakhani, Economegydd, Banc Barclays, Valerie Livingston, Cyfarwyddwr, Newsdirect Wales](#)

[Gwerth Gorau i'ch Economi Lleol a'ch Sefydliad, Sarah Longlands, Prif Weithredwr, CLES](#)

[Goresgyn Adfyd, Fabrice Muamba, Cyn Beldroediwr a Siaradwr Ysbrydoli](#)

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



Dydd Iau 7 Hydref

9.00am	Cofrestru, rhwydweithio a gweld yr arddangosfa
10.00am	Croeso a Gosod y Llwyfan Simon Jones, Cadeirydd Grŵp Cyflenwi Strategol Cyllid a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Tai Coastal @CoastalHousing

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



10.15am	Setliad Cymdeithasol Newydd: Safbwynt economaidd a gwleidyddol y dyfodol Greg Thwaites, Cyfarwyddwr Ymchwil, Resolution Foundation @resfoundation Bron ddeunaw mis o ddechrau pandemig COVID-19, mae Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig yn wynebu her anodd cynllunio eu hadferiad cymdeithasol ac economaidd o'r feirws, tra'n delio gydag effeithiau argyfwng cynyddol yn yr hinsawdd. Bydd y dewisiadau gwleidyddol ac economaidd sy'n ein hwynebu yn diffinio rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol, ac mae llawer wedi dadlau fod angen diwygio'r economi mewn ffordd flaengar ar gyfer yr heriau deuol hyn. Yn y sesiwn yma bydd Greg yn ymchwilio sut olwg fedrai fod ar setliad cymdeithasol newydd, a'r dewisiadau gwleidyddol ac economaidd sy'n ein hwynebu wrth gyrraedd yno. Sut olwg fyddai ar ein gwasanaethau cymdeithasol? Sut fyddai pobl yn elwa? Ac yn bwysig, a allwn ei fforddio? Ymunodd Greg â'r Resolution Foundation fel Cyfarwyddwr Ymchwil ym mis Medi 2020. Cyn hynny roedd yn Bennaeth Ymchwil Rhyngwladol ym Manc Lloegr, a bu'n gweithio i Genhadaeth y Cenhedloedd Unedig yn Kosovo a'r Comisiwn Annibynnol ar Fancio ('Comisiwn Vickers'). Mae ganddo ddiddordebau eang mewn ymchwil ddamcaniaethol ac empirig mewn taliadau a thechnoleg ariannol mewn cyd-destun datblygu, macroeconomeg newid demograffig a strwythurol, polisi macroeconomaidd, sefydlogrwydd ariannol, ac anghydraddoldeb a dosbarthu.
10.40am	Setliad cymdeithasol newydd – a allwn ei fforddio? Sesiwn Panel Bydd panel o arbenigwyr blaenllaw yn ymuno â Greg Thwaites i ymchwilio'r syniadau a gynigir yn y sesiwn gyweirnod, ac yn edrych ar y goblygiadau i gyllid y llywodraeth a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Alan Brunt, Prif Weithredwr, Grŵp Cartrefi Cymunedol Bron Afon @albrunt
11.15am	Cyfle am baned a sgwrs – noddir yr ystafell Coffi a Sgwrs drwy garedigrwydd Savills



11.30pm	Main Session: Affordability - A European Perspective David Orr, Cyd-Gadeirydd, #Housing2030 @DavidOrrCBE Mae sicrhau fod ein cartrefi yn fforddiadwy yn un o'r heriau polisi allweddol a wynebwn fel cymdeithasau tai. Fodd bynnag, nid yw cydbwysu darpariaeth rhenti isel gyda'r angen i gynnal cartrefi i'r safonau uchaf posibl ac adeiladu cartrefi newydd ar gyfer y rhai mewn angen yn unigryw yng Nghymru. Mae prosiect #Housing2030 Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE) a Housing Europe 2030 yn gynllun ar y cyd o arbenigwyr tai o bob rhan o Ewrop, yn ymchwilio sut i gefnogi llywodraethau cenedlaethol a darparwyr tai i wneud eu cartrefi yn fwy fforddiadwy. Bydd y sesiwn yn bwrw golwg ar yr heriau y maent wedi eu dynodi ar draws Ewrop a'r ffyrdd llwyddiannus y mae darparwyr tai a llywodraethau wedi ymateb.
12.15pm	Cinio a Rhwydweithio
1.30pm	Sesiynau Gweithdy
	Cyllid Gwyrdd ar gyfer Datgarboneiddio Dr Eurgain Powell, Ysgogwr Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol @futuregencymru Yn gynharach eleni cyhoeddwyd adroddiad Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Her Ôl-osod gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ystyried y cyllid sydd ei angen i ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion cadarn ar sut i bontio'r bwlch cyllid, a bydd y sesiwn hon yn edrych yn fwy manwl ar y datrysiadau hynny.

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



	Ystyriaethau Amgylcheddol, Cynaliadwyedd a Llywodraethiant a Benthyciadau Cysylltiedig â Chynaliadwyedd Peter Lewis, Cyfarwyddwr Adnoddau y Grŵp, Cartrefi Conwy, @CartrefiConwy, James Tattersall, Centrus @_Centrus Dros y ddwy flynedd ddiwethaf gwelsom gynnydd enfawr yn y sylw i ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn y sector tai cymdeithasol. Gyda'r cynnydd mewn bondiau cymdeithasol a chynaliadwy a benthyciadau cysylltiedig â chynaliadwyedd, mae gan ddarparwyr tai fynediad i lu o gynnyrch ariannol cysylltiedig ag ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant sy'n dod â diddordeb buddsoddwyr newydd i'r sector. Ond a yw'r sector angen buddsoddiad effaith? Beth sy'n ysgogi cyllidwyr a darparwyr tai i ddechrau eu teithiau cynaliadwyedd? Sut mae sefydlu fframwaith adrodd cynaliadwyedd a pham fod data mor bwysig? Bydd y sesiwn yn edrych ar dwf benthyciadau cysylltiedig â chynaliadwyedd a gwahanol ddulliau gweithredu mabwysiadwyr cynnar o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.
	Diogelwch Adeiladau: Sut mae'n effeithio ar gapasiti ariannol busnesau? Nigel Williams, Savills @Savills Mae costau sylweddol yn wynebu'r sector tai yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gwaith parhaus ar ddiogelwch adeiladau, cynyddu datgarboneiddio a chostau uwch ar gyfer cartrefi newydd, yn golygu y bydd angen i ddarparwyr tai weithredu i ddatgloi capasiti llif arian ychwanegol os ydynt i barhau i gynyddu buddsoddiad mewn cartrefi presennol a sicrhau capasiti ariannol digonol. Yn y sesiwn yma bydd Nigel Williams o Savills yn gosod y pum prif faes lle gallai darparwyr tai wella eu llif arian.
2.15pm	Cyfle am baned a sgwrs – noddir yr ystafell Coffi a Sgwrs drwy garedigrwydd Savills

Cynhadledd Cyllid 2021 **CHC**



2.30pm	Diweddariad ar y Fframwaith Rheoleiddio Ian Walters, Pennaeth Strategaeth Rheoleiddio, Llywodraeth Cymru @LlywCymru Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar fframwaith rheoleiddiol diwygiedig, bydd y sesiwn yma'n gyfle i glywed am y camau nesaf y mae'r Rheoleiddiwr yn eu cymryd a sut y byddant yn effeithio ar gymdeithasau tai..
3.00pm	Bwrw golwg yn ôl ar y gynhadledd a diwedd y Diwrnod Cyntaf

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)

Friday 8th October

9.00am	Cofrestru, rhwydweithio a gweld yr arddangosfa	
10.00am	Croeso a Gosod y Llwyfan – Sophie Taylor, Is-gadeirydd Grŵp Cyflenwi Strategol a Phennaeth Cyllid a Chaffaeliad, Tai Cymunedol Bron Afon @SophieTBronAfon	
10.15am	Elyrch Du Economaidd Sarah Dickins, Gohebydd Economeg, BBC Cymru @SarahOnTheNews Sarah Dickins yw Gohebydd Economeg cyntaf BBC Cymru ac mae'n un o'n newyddiadurwyr mwyaf profiadol. Gyda chadwyni cyflenwi dan bwysau a'r tebygrwydd yn cynyddu am gynnydd mewn chwyddiant, sut gall busnesau baratoi ac a fydd economi Cymru byth yn edrych yr un fath ag yr oedd cyn y pandemig? Yn y sesiwn heddiw, bydd Sarah yn defnyddio ei phrofiad helaeth i siarad am elyrch du economaidd, ei sylwadau ar beth sydd nesaf i economi Cymru a'r hyn y gallwch ei wneud i feithrin cydnerthedd i rymoedd economaidd allanol sylweddol.	
10.45am	Cyfle am baned a sgwrs – noddir yr ystafell Coffi a Sgwrs drwy garedigrwydd Savills	

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



11.00am	Elyrch Du Economaidd – Sesiwn Panel Bydd ein panelwyr yn ymuno â Sarah Dickins i drafod risgiau i gymdeithasau tai yn dilyn y pandemig. Jai Lakhani, Economegydd, Banc Barclays @Barclays Valerie Livingston, Cyfarwyddwr, Newsdirect Wales @velivingston
12.00pm	Cinio a Rhwydweithio
12:45pm	Gwerth Gorau i'ch Economi Lleol a'ch Sefydliad Sarah Longlands, Prif Weithredwr, CLES @CLEStinkdo Mae cefnogwyr caffael lleol yn awgrymu y dylai llywodraethau ddefnyddio eu grym prynu i gefnogi busnesau lleol yn y gobaith y bydd hyn yn tyfu'r economi lleol. Cafodd y model sylw cynyddol yn y Deyrnas Unedig yn ddiweddar, gydag arbrofion yn Preston, Manceinion Fwyaf a Doncaster. Yn y sesiwn yma bydd Sarah yn ymchwilio'r foment yr ydym ynddi yn awr ar gyfer datblygu economaidd lleol, sut mae hynny'n cysylltu gyda meithrin cyfoeth cymunedau, a'r prosesau llawr gwlad sy'n troi'r deial yn gynyddol tuag at newid system.
1.15pm	Cyfle am baned a sgwrs – noddir yr ystafell Coffi a Sgwrs drwy garedigrwydd Savills
1.30pm	Sesiynau Gweithdy

Key:

Main Session

Break & Networking

Workshop

[Book Now](#)

[Email Events Team](#)



	Diweddariad Pensiynau Stuart Price, Partner, Quantum Advisory, @QuantumAdvisory Mae effaith diffygion cynyddol FRS102 yn golygu heriau sylweddol i gyllid cymdeithasau tai. Bydd y sesiwn yma'n rhoi trosolwg o sut mae enillion bondiau cyfalaf, disgwyliadau chwyddiant a symud mewn tybiaethau actiwaraid wedi effeithio ar sefyllfa mantolenni. Bydd Quantum Advisory yn cynnig asesiad arbenigol ar y tirlun ar gyfer SHPS a LGPS, yn dehongli canlyniad gwerthusiad tair blyneddol SHPS ac yn rhoi dirnadaeth werthfawr ar yr hyn sydd i fod a sut y gellir lliniaru risgiau.
	Diweddariad Yswiriant Jeff Laidler, Partner ac Ymgynghorydd Risg Yswiriant, Gibbs Laidler, @GibbsLaidlerLLP Yn y sesiwn yma bydd Jeff yn rhoi trosolwg o'r hyn a welsom yn digwydd yn ddiweddar yn y farchnad yswiriant, yn cynnwys effeithiau Covid, diogelwch adeiladau, seibr, risg llifogydd a'r effaith ar breimymau a thelerau
	Cyllid Tai i Aelodau Bwrdd Sarah Prescott, Ymgynghorydd a Hyfforddwr Ariannol, @SPrescottWales Wrth i'r heriau sy'n wynebu cymdeithasau tai gael mwy o sylw a dod yn fwy cymhleth, felly hefyd yr ymateb ariannol. Gall trefniadau cyllido cymdeithasau tai fod yn anodd i aelodau bwrdd cymdeithasau – hen a newydd – eu trin. Yn y sesiwn yma, bydd Sarah yn defnyddio ei gwybodaeth fel Cyfarwyddwr Cyllid nifer fawr o gymdeithasau tai ac fel aelod bwrdd i ddistyllu'r her cyllido i rywbeth y bydd pob aelod bwrdd yn ei gael yn werthfawr.
2.15pm	Cyfle am baned a sgwrs – noddir yr ystafell Coffi a Sgwrs drwy garedigrwydd Savills



2.30pm	Goresgyn Adfyd Fabrice Muamba, Cyn Beldroediwr a Siaradwr Ysbrydoli @fmuamba6 Mae Fabrice Muamba yn gyn beldroediwr y bu'n rhaid iddo ymddeol o'r gêm ar ôl dioddef ataliad y galon ar y cae yn chwarae yn erbyn Tottenham Hotspur yng Nghwpan yr FA. Yn un o'r golygfeydd mwyaf gofidus yn hanes pêl-droed, cwmpodd Fabrice ar y cae hanner ffordd drwy'r gêm yn erbyn Tottenham ac er i'w galon stopio am 78 munud, diolch i ymateb cyflym y tîm meddygol ac oherwydd ei lefel ffitrwydd, aeth ati i wneud adferiad hynod gan gael ei ryddhau o'r ysbyty ychydig dros fis wedyn. Mae Fabrice yma heddiw i ddweud ei stori a sut y gwnaeth oresgyn adfyd i ddechrau gyrfa newydd fel sylwebydd teledu a hyfforddydd, a sut y gallwch feithrin eich cydnerthedd eich hun wrth oresgyn eich heriau.
3.15pm	Bwrw golwg yn ôl a chau'r Gynhadledd